**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/**
Prif Weithredwr GIG Cymru
Y Grŵp **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Director General Health and Social Services/
**NHS Wales Chief Executive**
**Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru

22 Ionawr 2018

Annwyl Huw

**Archwiliad Gwerth am Arian yr Archwilydd Cyffredinol: Systemau Gwybodeg yn GIG Cymru**

Diolch ichi am eich adroddiad ar systemau gwybodeg yn GIG Cymru. Rwyf yn gwerthfawrogi'r gwaith y mae tîm yr astudiaeth wedi'i wneud ar hyn dros y 18 mis diwethaf.

Rwyf yn falch o weld bod yr adroddiad yn cydnabod bod gan GIG Cymru weledigaeth glir ar gyfer y cofnod electronig am gleifion yng Nghymru ac, er fy mod yn cydnabod ein bod yn wynebu rhai heriau, rwyf yn hyderus ein bod wedi gwneud camau breision, hyd yn oed yn yr amser ers i'ch tîm gyflawni'r adolygiad, a byddwn yn parhau i yrru gwelliannau yn y dyfodol.

Yn ystod trafodaethau cynnar, cytunwyd y byddai Llywodraeth Cymru'n ymateb i'r adroddiad mewn dau gam. Bwriad hyn yw adlewyrchu'r ffaith bod cwmpas yr adolygiad yn ehangach na Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) ac fel y cyfryw, mae angen inni ymgysylltu â GIG Cymru a sicrhau bod ein hymateb yn adlewyrchu'r farn ehangach; ac i gydnabod y bydd cyhoeddi'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru hefyd yn llywio ein hymateb.

Mae'r ymateb cychwynnol hwn yn cydnabod y canfyddiadau allweddol ynghylch yr anawsterau sydd ynghlwm wrth sicrhau cyllid digonol i fwrw ymlaen â'r weledigaeth; yr angen i gryfhau prosesau blaenoriaethu; a'r angen i adolygu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer NWIS.

Rydym eisoes wedi cael trafodaethau helaeth am ganfyddiadau allweddol yr adolygiad gyda Chyfarwyddwr NWIS a Phrif Weithredwr arweiniol y GIG dros Wybodeg ac rydym yn ystyried adolygiad ehangach o dirlun llywodraethu gwybodeg.

Mae cyllid a blaenoriaethu gwaith yn gysylltiedig â'i gilydd yn annatod ac felly mae'r gwaith ar flaenoriaethu a'r Cynllun Cenedlaethol, sy'n cael eu goruchwylio gan Fwrdd Rheoli

Gwybodeg GIG Cymru (NIMB), sy'n cynnwys aelodau gweithredol o gyrff y GIG sy'n gyfrifol am Wybodeg, cynrychiolwyr NWIS ac uwch swyddogion Llywodraeth Cymru, yn allweddol. Mae'n glir hefyd nad mater i Lywodraeth Cymru yn unig ei ystyried yw hwn, gan mai mater i'r GIG yn bennaf yw'r ffordd y caiff cyllid ei ddyrannu yng nghyrff y GIG.

Bydd trafodaeth bellach â Phrif Weithredwyr y GIG ac uwch swyddogion Llywodraeth Cymru ym Mwrdd Gweithredol GIG Cymru ar 30 Ionawr, ac mae aelodau NIMB yn ystyried beth y mae'r adroddiad yn ei olygu i'w cyrff, gydag eitem sylweddol ar adroddiad yr agenda ar gyfer cyfarfod NIMB ar 15 Chwefror.

Mae swyddogion hefyd yn adolygu canfyddiadau'ch adolygiad ochr yn ochr â chanfyddiadau'r Adolygiad Seneddol.

Bydd yr holl weithgareddau hyn yn cyfrannu at ymateb cydweithredol, gwybodus a chynhwysfawr i'ch adolygiad y byddaf yn ei ddarparu erbyn 2 Mawrth.

Rwyf yn ymwybodol y bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ystyried ei ymateb i'r adroddiad yn ei gyfarfod ar 29 Ionawr ac fe gaiff copi o'r llythyr hwn ei anfon at gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i hwyluso hynny.

Yn gywir



**Dr Andrew Goodall**

copïau at: Nick Ramsay AC, Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Frances Duffy, Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol ac Arloesi, y Grŵp HSS
David Richards, Cyfarwyddwr Llywodraethu a Pherfformiad